**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

15 Hydref 2024

Annwyl Ruth Coombs,

Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Ym mis Mai 2022, nododd Llywodraeth Cymru bum maes gweithredu a oedd yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion a dderbyniwyd yn yr adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Pwysleisiodd un o'r argymhellion hyn yr angen i gryfhau cysylltiadau a chydweithio rhwng y llywodraeth, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas y Gyfraith wrth hyrwyddo'r agenda hawliau dynol.

Yng ngoleuni'r uchod, byddem yn croesawu diweddariad gennych chi ar yr argymhellion sy'n ymwneud â chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan gynnwys unrhyw fanylion penodol am unrhyw gamau a gymerwyd.

Rydym hefyd wedi amgáu copi o'r ohebiaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi rhagor o gyd-destun i'n gwaith yn y maes hwn.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol